# ADRODDIAD BLYNYDDOL A CHYFRIFON

2021 - 2022

## CYNNWYS

**03** Neges gan y Cadeirydd, Mary Ann

**05** Uchafbwyntiau'r flwyddyn

**06** Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr ar gyfer y flwyddyn sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2022

**15** Adroddiad yr Archwiliwr Annibynnol

**16** Datganiad o Weithgareddau Ariannol

**17** Mantolen

**19** Nodiadau i'r datganiadau ariannol

**27** Datganiad Manwl o Weithgareddau Ariannol

**Swyddfa Gofrestredig:**
RhCM Cymru
Tŷ Rhyngwladol, 10 Ffordd Churchill,
Caerdydd, CF10 2HE,

**Rhif ffôn:** 07511 939 235
**Gwefan:** www.wenwales.org.uk

**Rhif Cwmni Cofrestredig**
07891533 (Cymru a Lloegr)

**Rhif Elusen Gofrestredig:**
1145706

## NEGES GAN Y CADEIRYDD

Eleni, ddeng mlynedd ers ei sefydlu, gwelwyd Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru yn mynd o nerth i nerth. Mae ein gwaith **ymgyrchu** yn gwneud gwahaniaeth go iawn ar gyfer menywod yng Nghymru; mae ein **cysylltiadau** yn hybu lleisiau menywod ac yn datgelu amrywiaeth cyfoethog bywydau a phrofiadau menywod. Ac mae **hyrwyddo** menywod ysbrydoledig, sydd bob amser yn bleser, wedi dod yn haws wrth i gynifer o fenywod o Gymru gamu i'r llwyfan cyhoeddus. Wrth wraidd ein holl gyflawniadau y mae'r partneriaethau a'r rhwydweithiau sy'n cynnal ac yn meithrin hanfod RhCM. Hebddynt, ni fyddai RhCM wedi gallu dod yn un o'r prif leisiau dros gydraddoldeb i fenywod yng Nghymru.

Mae ein haelodaeth groestoriadol ac amrywiol wedi tyfu 11% eleni o ran unigolion ac mae ein haelodaeth sefydliadol wedi tyfu 81% yn sgil gwaith ymgyrchu ac ymgysylltu tra effeithiol. Mae'r sylw yn y wasg wedi cynyddu ac yr ydym yn cyrraedd 650,000 o bobl trwy'r cyfryngau cymdeithasol gyda chynnydd o 10% yn nifer y dilynwyr. Mae Caffis RhCM, a ddechreuodd yn 2020, wedi parhau i sbarduno trafodaeth a phennu'r agenda ym maes polisi. Mae bron i 600 o fobl wedi mynychu'r caffis, gyda 97% ohonynt yn teimlo eu bod wedi'u grymuso'n fwy i godi eu llais ac yn fwy gwybodus am hawliau menywod, a 95% ohonynt yn teimlo eu bod yn fwy abl i ddylanwadu.

*Mae bron i 600 o bobl wedi mynychu Caffis RhCM eleni. Mae 97% yn teimlo'n fwy gwybodus am hawliau menywod.*

O ran ein blaenoriaethau strategol, daliwyd ati i ganolbwyntio ar ymgyrchu dros arweinyddiaeth amrywiol a chyfartal yn sefydliadau gwleidyddol Cymru a gwreiddio egwyddorion y Confensiwn ar Wahardd Pob Math o Wahaniaethu yn Erbyn Menywod (CEDAW) yng nghyfraith Cymru. Mae ein dyfalbarhad, ein negeseuon clir a'n rhwydweithiau a'n partneriaethau cryf wedi talu ar eu canfed. Bellach, mae Llywodraeth Cymru wedi addo ymgorffori CEDAW yng nghyfraith Cymru. Ym mis Mai, yn yr hyn sy'n gyflawniad hanesyddol i bob menyw, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y byddai'n deddfu ar gyfer cwotâu rhywedd ar draws y llywodraeth. Dyma mae ein hymgyrch 5050Amrywiol wedi pwyso amdano ac mae'n fuddugoliaeth wych i'r ymgyrch ac i'r holl sefydliadau a'i cefnogodd. Mae ein llwyddiant yn cael ei chydnabod; enwebwyd 5050Amrywiol ar gyfer un o wobrau Amrywiaeth a Chynhwysiant Wales Online 2022.

Mae llawer i'w wneud eto er mwyn sicrhau bod menywod hil-ddiffiniedig, menywod anabl a menywod LHDTC+ oll yn elwa yn yr un modd o'r newidiadau yn y gyfraith ac yn teimlo bod cefnogaeth iddynt sefyll mewn etholiadau lleol a chenedlaethol. Ehangwyd ein gwaith mentora, i adlewyrchu ein penderfyniad i weithio gydag eraill i gynyddu amrywiaeth mewn cynrychiolaeth. Buom yn arwain ar sefydlu Pŵer Cyfartal Llais Cyfartal (EPEV), sef rhaglen fentora mewn partneriaeth â chyrff cydraddoldeb eraill, ochr yn ochr â Stonewall Cymru, Anabledd Cymru, a Thîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig ac Ieuenctid (EYST) Cymru. Ym mlwyddyn gyntaf y rhaglen a gyllidwyd yn wreiddiol am dair blynedd,

cafodd 97 o fentoreion eu cefnogi, eu herio, eu mentora a'u hysbrydoli gan staff EPEV a hyfforddwyr a mentoriaid gwych y rhaglen. Roedd EPEV hefyd yn enwebai haeddiannol ar gyfer un o Wobrau Amrywiaeth a Chynhwysiant Wales Online.

Roedd dathliadau ar-lein WEN at Ten yn wefreiddiol, yn llawen ac yn deimladol. Daeth staff ddoe a heddiw, mentoreion a mentoriaid, sefydliadau partner a chyfeillion, megis y beldroedwraig ryngwladol Jess Fishlock ynghyd i rannu atgofion a storïau, a dathlu ein cerrig milltir a'n cyflawniadau. Buom hefyd yn edrych ymlaen at y deng mlynedd nesaf wrth lansio ein hymgyrch codi arian. Bydd amrywio ein ffynonellau cyllid er mwyn lleihau dibyniaeth RhCM Cymru ar grantiau yn allweddol os ydym am barhau i fod yn sefydliad cadarn sy'n ffynnu mewn cyfnod mwy fwy heriol. Mae arwyddion addawol y bydd hyn yn digwydd. Mae ein cyllid wedi cynyddu o £157,052 to £338,591 ac mae gennym swyddog codi arian bellach yn sgil Cronfa Gwydnwch y Trydydd Sector. Rydym yn ddiolchgar dros ben i'n holl gyllidwyr presennol am eu cymorth a'u hyblygrwydd yn ystod pandemig COVID, a fu mor angenrheidiol ac mor fuddiol o ran caniatáu inni gynnal ansawdd ac ystwythder ein rhaglenni gwaith. Diolch o waelod calon i Ymddiriedolaeth Diwygio Joseph Rowntree, y Loteri Genedlaethol, Llywodraeth Cymru, Cronfa Gwydnwch y Trydydd Sector a Chyngor Partneriaeth y Trydydd Sector (WCVA).

*Gan lynu'n dynn wrth ein gwerthoedd, mae'r tîm wedi gweithio â charedigrwydd di-baid i hyrwyddo ein nodau.*

Diolch i'n tîm o staff ymroddedig. Ansawdd a chryfder ein tîm o staff yw'r prif reswm y mae RhCM Cymru wedi gallu codi'i lais yn uchel a mynnu cydraddoldeb i fenywod. Eleni, mae nifer y staff wedi tyfu o 5 i 8. Ynghyd â'r staff presennol, mae pob un aelod o'r tîm wedi cael effaith. Gan lynu'n dynn wrth ein gwerthoedd, maent wedi gweithio â charedigrwydd di-baid i hyrwyddo ein nodau. Mae rhagor o waith i'w wneud a bydd ein staff sy'n gweithio gyda'n haelodau a'n cefnogwyr wrth wraidd popeth a wnawn. Rydym yn ddiolchgar am eich haelioni a'ch penderfyniad i weithredu. Diolch i chi i gyd am eich gwaith, eich cefnogaeth, eich ymgysylltiad, a'ch syniadau. Dros y 10 mlynedd nesaf, edrychwn ymlaen at weld RhCM Cymru yn gweithio'n ddiflino dros Gymru sy'n rhydd rhag gwahaniaethu ar sail rhywedd.

**Mary Ann Brocklesby**
Cadeirydd

WEN Wales Cymru

# UCHAFBWYNTIAU 2021-2022

Cyflawni ein blaenoriaethau strategol. Diolch: blwyddyn wych arall.

## CYSYLLTU

CYNYDDODD YMWELWYR Â'N GWEFAN 57%

ROEDD **#WENATTEN** YN TUEDDU AR TRYDAR

**CYNNYDD MEWN AELODAU SEFYDLIADOL 81%**

## CAFFIS RHCM

**DAETH 600 O BOBL**

ROEDD 97% YN TEIMLO BOD GANDDYNT FWY O RYM I SIARAD ALLAN

ROEDD 95% YN TEIMLO'N FWY ABL I DDYLANWADU

ROEDD 97% YN TEIMLO YN FWY GWYBODUS AM HAWLIAU MENYWOD

**LANSIO PODLEDIAD CAFFI RHCM**

FE GYRHAEDDON **650K O BOBL** AR Y CYFRYNGAU CYMDEITHASOL

CYNYDDODD RHWYDWAITH RHYWEDD GAN 23%

**DILYNWYR AR Y CYFRYNGAU CYMDEITHASOL ↑ 10%**

## DATHLWYD EIN DDENGMLWYDDIANT!

## DATHLU

**ENWEBWYD AR GYFER DWY WOBR** AMRYWIAETH A CHYNHWYSIANT WALESONLINE

**PECYN CYMORTH DIWRNOD RHYNGWLADOL MENYWOD** YN CAEL EI DDOSBARTHU I BOB YSGOL YNG NGHYMRU

LANSIO CYNLLUN MENTORA TRAWS-GYDRADDOLDEB **PŴER CYFARTAL LLAIS CYFARTAL**

## YMGYRCHU

**#5050AMRYWIOL:** PLEIDLEISIODD Y SENEDD DROS BECYN DIWYGIO GAN GYNNWYS **CWOTÂU RHYWEDD STATUDOL**

**LLYWODRAETH CYMRU'N** YMRWYMO I YMGORFFORI **EGWYDDORION CEDAW*** YNG NGHYFRAITH CYMRU

@wenwales www.wenwales.org.uk @wenwales

*THE CONVENTION ON THE ELIMINATION OF ALL FORMS OF DISCRIMINATION AGAINST WOMEN

## ADRODDIAD BLYNYDDOL YR YMDDIRIEDOLWYR AR GYFER Y FLWYDDYN SY'N DOD I BEN AR 31 MAWRTH

**Ein gweledigaeth yw Cymru sy'n rhydd o wahaniaethu rhwng y rhywiau.**
Cymru lle mae gan yr holl fenywod a dynion awdurdod cydradd i lunio'r gymdeithas a'u bywydau eu hunain. Rydym yn gweithio gyda'n cynghrair fywiog o aelodau sefydliadol ac unigol i drawsnewid y gymdeithas – ni all un sefydliad ar ei ben ei hun gyflawni cydraddoldeb.

## Diben ac Amcanion

**DIBEN**
Bod yn rhwydwaith menywod cynrychioladol i ddylanwadu ar greu polisïau a grymuso menywod i gyflawni statws cyfwerth mewn bywyd corfforaethol a sifil.

**AMCANION**
Mae ein hamcanion yn seiliedig ar yr amcanion yn y Confensiwn ar Wahardd Pob Math o Wahaniaethu yn Erbyn Menywod (CEDAW). Mabwysiadwyd y confensiwn hwn gan Gynulliad Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig ar 18 Rhagfyr 1979. Bydd hefyd yn dibynnu ar y Datganiad Cyffredinol Hawliau Dynol, a fabwysiadwyd gan Gynulliad Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig ar 10 Rhagfyr 1948. Dyma'n hamcanion; er budd y cyhoedd:

1. hyrwyddo cydraddoldeb;
2. hyrwyddo hawliau dynol gan bawb neu drwy unrhyw un o'r ffyrdd canlynol:
   - I monitro camdriniaeth hawliau dynol;
   - II. gwneud yn iawn i ddioddefwyr camdriniaeth hawliau dynol;
   - III. gwella angen ymhlith dioddefwyr camdriniaeth hawliau dynol;
   - IV. ymchwilio i faterion hawliau dynol;
   - V. addysgu'r cyhoedd am hawliau dynol;
   - VI. darparu cyngor technegol i'r llywodraeth ac eraill ar faterion hawliau dynol;
   - VII. cyfrannu at weinyddiaeth gadarn cyfraith hawliau dynol;
   - VIII. cyflwyno sylwadau ar ddeddfwriaeth hawliau dynol arfaethedig;
   - IX. hyrwyddo ymwybyddiaeth o faterion hawliau dynol;
   - X. hyrwyddo cefnogaeth y cyhoedd o hawliau dynol;
   - XI. hyrwyddo parch ar gyfer hawliau dynol ymhlith unigolion a chorfforaethau;
   - XII. eiriolaeth ryngwladol ar gyfer hawliau dynol;
   - XIII. gwahardd troseddau yn erbyn hawliau dynol.

ac, ym mhob achos gan gyfeirio'n benodol at gydraddoldeb menywod a rhywedd yng Nghymru.

## Adolygiad o'r Flwyddyn

**Mae ein gwaith yn canolbwyntio ar dair blaenoriaeth strategol:**

- Datblygu ac ysgogi cynghrair o actifyddion i ymgyrchu gyda ni
- Ymgyrchu dros arweinyddiaeth 5050Amrywiol yn y Senedd ac mewn Llywodraeth Leol
- Cryfhau hawliau menywod trwy ymgyrchu dros ymgorffori egwyddorion CEDAW yng nghyfraith Cymru

Amlinellir isod y gwaith a wnaed gennym eleni wrth weithio tuag at ein tair blaenoriaeth strategol.

### 1. DATBLYGU AC YSGOGI CYNGHRAIR O ACTIFYDDION I YMGYRCHU GYDA NI

Rydym wedi parhau i ddatblygu ac ysgogi ein cynghrair o aelodau a chefnogwyr ledled Cymru gan ymgysylltu'n fwy â'n haelodau trwy Gaffis RhCM a digwyddiadau eraill, newyddlenni, blogiau a gwaith cyfathrebu rheolaidd, ein pecyn cymorth Diwrnod Rhyngwladol y Menywod, a gweithio mewn partneriaeth ar ymgyrchoedd a digwyddiadau.

*Tyfodd cyfanswm ein clymblaid 10% dros y flwyddyn, gan gynnwys cynyddu nifer ein haelodau sefydliadol 81%*

#### 1.1. Datblygu ein cynghrair

- Nifer yr aelodau unigol wedi cynyddu 11%
- Y gynulleidfa ar y Cyfryngau Cymdeithasol wedi cynyddu 10%
- Nifer yr aelodau sefydliadol wedi cynyddu 81%
- Cyfanswm twf y clymblaid yn ystod y flwyddyn: 10%
- Ymwelwyr â'r wefan wedi cynyddu 57% o'r naill flwyddyn i'r llall

#### 1.2. Gwaith polisi i gefnogi'r gynghrair

Trwy'r Rhwydwaith Rhywedd, ein fforwm polisi croestoriadol, buom yn rhannu diweddariadau polisi yn wythnosol gan gynnwys gwybodaeth am yr hyn sy'n digwydd yn y Senedd ynghylch cydraddoldeb rhywedd a hawliau menywod; buom hefyd yn ymgynghori'n rheolaidd â'r grŵp ac yn cydweithredu ar ymatebion i ymgynghoriadau polisi. Cefnogir y Rhwydwaith Rhywedd trwy ein cyllid gan Gyngor Partneriaeth y Trydydd Sector (TSPC). Mae'n cynnwys 74 o unigolion o 38 o sefydliadau ynghyd ag actifyddion ac academyddion, ac ehangwyd y rhwydwaith eleni, gyda'r aelodaeth yn cynyddu 35% ers 31 Mawrth 2021.

Buom yn cydlynu ystod o waith dylanwadu cydweithredol trwy'r Rhwydwaith Rhywedd. Ar ddechrau'r Chweched Senedd, aethom ati i lobïo'n llwyddiannus am Bwyllgor penodedig ar gyfer Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol a phan sefydlwyd y Pwyllgor hwnnw, ysgrifennom lythyr ar y cyd yn amlinellu blaenoriaethau allweddol y rhwydwaith. Bu adborth ein haelodau a'u profiadau bywyd yn ddylanwad arwyddocaol ar ein hymateb i ymgynghoriadau ynghylch gofal plant a chyflogaeth rhieni yn ogystal â'n gwaith ynghylch cynrychiolaeth amrywiol a chyfartal. Cyfarfûm i archwilio syniadau ar gyfer ymgyrch gofalu yng Nghymru ac aethom ati, ar y cyd â Thriniaeth Deg i Fenywod Cymru (FTWW), i godi iechyd menywod fel maes blaenoriaeth ar gyfer y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a hwyluso sesiwn ar y gynghrair iechyd menywod.

Y gallu hwn i gydweithredu a chydweithio mewn gwahanol feysydd polisi sy'n gwneud RhCM yn unigryw ac yn cynnig buddion mesuradwy i'n haelodau. Mae arolwg boddhad ac effaith a gynhaliwyd yn ystod haf 2021 yn dangos y canlynol:

- byddai 90% yn barod i argymell y rhwydwaith i'w cyd-sefydliadau, actifyddion neu academyddion;
- mae 90% yn teimlo bod mwy o wybodaeth ganddynt am ddatblygiadau polisi; ac
- mae 48% yn teimlo eu bod yn gallu dylanwadu mwy am eu bod nhw'n aelod o'r Rhwydwaith Rhywedd

Ar sail canfyddiadau ein gwaith ymchwil polisi ni a'n haelodau, buom yn ymateb i ymgynghoriadau'r Senedd, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar ystod o faterion, gan gynnwys addysg cydberthynas a rhywioldeb, anghydraddoldebau o ran iechyd meddwl, diwygio'r Ddeddf Hawliau Dynol, Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) a'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol.

Yn ogystal, RhCM Cymru yw Ysgrifenyddiaeth y Grŵp Trawsbleidiol ar Fenywod, a gadeiriwyd eleni gan Siân Gwenllian AS. Croesawodd y grŵp nifer o siaradwyr arbenigol a fu'n trafod cwotâu rhywedd ac amrywiaeth a chyflawnwyd gwaith allweddol o ran datblygu momentwm parhaus y tu ôl i'r hyn y mae ymgyrch 5050Amrywiol yn gofyn amdano. Rydym yn ddiolchgar dros ben i'r cadeirydd am ei chymorth a'i harweiniad.

### 1.3. Hyrwyddo menywod ar Ddiwrnod Rhyngwladol y Menywod

Eleni, aethom ati i ddiweddaru ein pecyn cymorth Diwrnod Rhyngwladol y Menywod ar gyfer ysgolion a grwpiau ieuenctid, gan weithredu ar yr adborth a ddaeth i law ynghylch ein pecyn cymorth cyntaf yn 2021. Lluniwyd adnodd gwerthfawr gennym sy'n llawn gweithgareddau ac addysg am gydraddoldeb rhywedd a hawliau menywod, i'n helpu i weithio tuag at ein hamcan o estyn allan i'r genhedlaeth nesaf o actifyddion ifanc.

Cydgynhyrchwyd y pecyn cymorth yn wreiddiol â grŵp o arbenigwyr addysg gynradd ac uwchradd. Bu'r grŵp yn craffu ar syniadau'r pecyn cymorth, yn awgrymu dulliau gweithredu ac yn cynghori ar y cynnwys. Rydym yn ddiolchgar i'r ysgolion a hefyd i Griffin Books a Chyngor Llyfrau Cymru a awgrymodd restrau darllen. Eleni, rydym hefyd yn ddiolchgar i Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru am adolygu'r pecyn cymorth a chynnig cyngor ychwanegol.

Lansiwyd pecyn cymorth 2022 ar ei newydd wedd ym mis Ionawr ac fe'i dosbarthwyd i bob ysgol yng Nghymru ac i nifer o gymdeithasau grwpiau ieuenctid. Yn ogystal, dosbarthwyd y pecyn cymorth trwy Hwb Llywodraeth Cymru ac mae modd ei lawrlwytho o'n gwefan ni.

### 1.4. Sylw yn y wasg

Eleni, mae ein huchafbwyntiau o ran sylw yn y wasg yn cynnwys sylw mawr i'r hyn yr ydym yn gofyn amdano o ran polisi gofal plant ar BBC Radio Wales, Newyddion S4C, y Western Mail, blog y Sefydliad Materion Cymreig ac argraffiad printiedig 'Welsh Agenda' a Newyddion y BBC Ar-lein. Rhoddwyd sylw i'n safbwynt ar gwotâu rhywedd ac amrywiaeth

ym mhapurau newydd The National, y Western Mail, a Business News Wales. Rhoddwyd sylw hefyd i'n dadl o blaid Incwm Sylfaenol i Bawb ar newyddion y BBC ar-lein, WalesOnline, newyddion ITV ar-lein, ac yn The National. Cawsom sylw pellach ar nifer o bynciau yng nghylchgrawn Women's Health, Business Live, Byline Times, Wales247 a'r South Wales Argus.

### 1.5. Caffi RhCM

Yn ystod y flwyddyn, adeiladwyd ar lwyddiant Caffis RhCM i gysylltu â'n haelodau, clywed profiadau bywyd menywod, a chasglu syniadau polisi ac argymhellion gan yr arbenigwyr ar ein paneli.

Clywsom gan ein panelwyr anhygoel a fu'n trafod amrywiaeth o bynciau, gan gynnwys yr hawl i dai digonol, hawliau menywod hŷn, cynrychiolaeth amrywiol a chyfartal, a bywyd LHDT+ yng Nghymru yn y gorffennol, y presennol a'r dyfodol. Drwy weithio ar y cyd â sefydliadau megis Ffederasiwn Cenedlaethol Sefydliad y Merched (WI), Tai Pawb, a FOR Cardiff ar ddigwyddiadau'r Caffi, gydag Anabledd Cymru, ERS Cymru, EYST, Cynghrair Hil Cymru, Cyngor Hil Cymru, a Stonewall Cymru ar yr Hustyngau Cydraddoldeb, a chyda phartneriaid megis Cymdeithas Fawcett ar ddigwyddiadau eraill yn ystod y flwyddyn, bu modd i ni gyrraedd cynulleidfaoedd newydd .

**100%**

*Yr ymatebwyr a roddodd sgôr ardderchog neu dda iawn i WEN at TEN*

Rydym yn cyhoeddi recordiadau o'r Caffis ac yn mynd ar ôl yr argymhellion polisi gyda gweinidog perthnasol y llywodraeth fel bod y Caffis yn arwain at newid go iawn. Eleni, sicrhawyd bod Caffis RhCM yn fwy hygyrch – mae recordiadau ar gael ar ein sianel YouTube i'r rhai sy'n methu dod i'r digwyddiadau byw. Yn ogystal, lansiwyd Podlediad Caffi RhCM am y tro cyntaf, y mae modd gwrando arno a'i lawrlwytho o'r holl brif lwyfannau podlediad.

Eleni, daeth cyfanswm o 538 o bobl i'n Caffis RhCM ac i'r digwyddiadau ar-lein, megis y dathliad dengmlwyddiant, WEN at Ten. Roedd 97% o atebwyr ein harolwg adborth yn teimlo eu bod wedi'u grymuso'n fwy i godi eu llais ac yn fwy gwybodus am hawliau menywod o ganlyniad i'r sesiynau, ac roedd 95% yn teimlo eu bod yn gallu dylanwadu mwy.

### 1.6. WEN at Ten

Eleni, buom yn dathlu dengmlwyddiant RhCM, gan ddechrau gyda digwyddiad ar-lein WEN at Ten ym mis Tachwedd. Prif siaradwr y digwyddiad oedd Jess Fishlock MBE a gymerodd ran mewn sgwrs ddiddorol iawn â'r Athro Laura McAllister. Adroddodd Krystal S Lowe ddwy gerdd wefreiddiol a grymus, a bu'r cynadleddwyr yn gwrando ar amrywiaeth o fenywod ysbrydoledig sydd â chysylltiadau â RhCM.

Cawsom adborth cadarnhaol gan y mwyafrif llethol o'r cynadleddwyr, a oedd o'r farn bod RhCM yn gynhwysol ac yn amrywiol. Dywedodd un cynadleddwr fod y digwyddiad *"yn enghraifft wych o sut i arddangos man diogel gweladwy, cynhwysol a chyfforddus, lle mae pob menyw yn cael ei chynrychioli a'i chlywed ac yn gallu rhannu."* Dywedodd 100%

o'r ymatebwyr fod y digwyddiad naill ai'n 'ardderchog' neu'n 'dda iawn.' Bu #WENatTen yn trendio ar Trydar gyda phostiadau a oedd yn cynnwys yr hashnod hwn yn gwneud 69,000 o argraffiadau ar y diwrnod ei hun.

## 2. 5050AMRYWIOL: ARWEINYDDIAETH AMRYWIOL A CHYFARTAL YN Y SENEDD AC MEWN LLYWODRAETH LEOL:

### 2.1. Ymgyrchu dros Newid

Daliwyd ati i ymgyrchu dros arweinyddiaeth gyfartal ar draws sefydliadau gwleidyddol Cymru gyda dealltwriaeth groestoriadol o'r rhwystrau sy'n wynebu menywod. Eleni, roedd ein hymgyrch #5050Amrywiol yn parhau i alw am gwotâu rhywedd ac amrywiaeth er mwyn sicrhau bod ein gwleidyddion yn wir yn cynrychioli'r boblogaeth gyfan.

Anfonodd cynghrair yr ymgyrch lythyr agored at y Pwyllgor Diben Arbennig wedi'i lofnodi gan holl bartneriaid y gynghrair a chyflwynodd dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor. Arweiniodd hyn, a gwaith ein partneriaid fel rhan o'r ymgyrch, at adroddiad terfynol y Pwyllgor a oedd yn cefnogi ac yn argymell integreiddio cwotâu rhywedd cyfreithiol rwymol yn y Senedd a chynyddu maint y Senedd. Roedd hwn yn eiliad hanesyddol i RhCM gan mai Cymru, yn ôl pob tebyg, fydd y wlad gyntaf yn y Deyrnas Unedig i ddeddfu o blaid cwotâu rhywedd, gan sicrhau y bydd cydraddoldeb rhywiol yn dod yn rhan annatod o'r Senedd am flynyddoedd i ddod, pa bynnag blaid wleidyddol fydd yn ffurfio'r Llywodraeth.

Bu'r Senedd hefyd yn trafod adroddiad y Pwyllgor Diben Arbennig a phleidleisiodd y mwyafrif o blaid ei argymhellion ynghylch cwotâu rhywedd.

Gan edrych ymlaen, bydd RhCM Cymru'n parhau i weithio gyda'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol i sicrhau bod geiriad y Bil ynghylch y cwotâu yn gywir ac na fydd her gyfreithiol. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â'r ASau o bob plaid yn ogystal â'r Cynghorau Sir ynghylch gorfodi mesurau amrywiaeth cryf wrth ethol ymgeiswyr.

**O ganlyniad i bwyso cyfunol gan ein cynghrair o aelodau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf:**

- Enwebwyd ymgyrch 5050Amrywiol ar gyfer Gwobrau Amrywiaeth a Chynhwysiant Wales Online gan gyrraedd y rownd derfynol yn y categori Hyrwyddwr/Ymgyrch Cydraddoldeb Rhywedd y flwyddyn.
- Ymrwymodd y Rhaglen Lywodraethu i gynnwys amddiffyniadau cyfreithiol newydd ar gyfer menywod yng nghyfraith Cymru, trwy gyfwng Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Wahardd Pob Math o Wahaniaethu yn Erbyn Menywod (CEDAW)
- Ymrwymodd 27 o sefydliadau, sy'n cynrychioli oddeutu 17,000 o bobl, i nodau ein hymgyrch 5050Amrywiol

### 2.2. Rhaglen Fentora Pŵer Cyfartal Llais Cyfartal

Eleni, lansiwyd Rhaglen Fentora Pŵer Cyfartal Llais Cyfartal, sef rhaglen dair blynedd a gyllidir gan y Loteri Genedlaethol a Llywodraeth Cymru. Mae'r rhaglen yn bartneriaeth ag Anabledd Cymru, EYST a Stonewall Cymru, a RhCM yw'r partner arweiniol.

Diben y rhaglen yw mentora menywod amrywiol, pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, pobl anabl a phobl LDHT i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus, boed trwy gynnig eu hunain ar gyfer swyddi gwleidyddol, gwasanaethu ar fyrddau cyhoeddus, byrddau elusen, neu fel llywodraethwyr ysgol. Cymerodd 97 o fentoreion ran yn y rhaglen.

Dechreuodd y rhaglen ym mis Chwefror 2022 gyda'r rhan fwyaf o'r digwyddiadau hyfforddi yn cael eu cyflwyno'n rhithwir gan ddefnyddio rhaglen gwe-gynadledda Zoom oherwydd y pandemig ac er mwyn hwyluso bod yn gynhwysol. Recordiwyd y sesiynau ar gyfer y mentoreion a oedd yn methu dod i'r digwyddiadau. Cynhaliwyd sesiynau ynghylch Byrddau a Llywodraeth Leol ac Ymgyrchu ar gyfer Swydd Wleidyddol a thros Newid Cymdeithasol i ddechrau ac, yn nes ymlaen yn y flwyddyn, cafodd y mentoreion hyfforddiant ynghylch sut y mae'r Senedd a San Steffan yn gweithio, i'w galluogi i weld y canolfannau pŵer yng Nghymru ac yn y Deyrnas Unedig a chael mynediad iddynt.

Mae'r tîm yn eithriadol o falch o gyflawniadau ein mentoreion hyd yn hyn, ac mae ganddynt eisoes lwyddiannau i'w rhannu;

- mae 2 fentorai wedi cychwyn busnesau newydd
- safodd 9 mentorai yn etholiadau'r Cynghorau eleni, ac yr ydym yn falch iawn fod 3 wedi bod yn llwyddiannus.
- mae 1 mentorai bellach yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru.
- mae 1 mentorai bellach yn trefnu ymgyrch lwyddiannus i wella gofal iechyd endometriosis yng Nghymru, a hefyd wedi cyrraedd rownd derfynol gwobr Hyrwyddwr Cydraddoldeb Rhywedd yng Ngwobrau Amrywiaeth a Chynhwysiant Wales Online
- Cyrhaeddodd mentorai arall rownd derfynol gwobr Hyrwyddwr/Menter neu Ymgyrch LHDTC+ y flwyddyn yng Ngwobrau Amrywiaeth a Chynhwysiant Wales Online.

Rydym hefyd wrth ein bodd fod Rhaglen Fentora Pŵer Cyfartal Llais Cyfartal wedi cyrraedd rownd derfynol Gwobrau Amrywiaeth a Chynhwysiant Wales Online.

Carem ddiolch i'n tîm gwych am eu hymrwymiad a'u hymroddiad wrth gydweithio i gyflwyno'r rhaglen. Carem ddiolch hefyd i'r holl fentoriaid, siaradwyr gwadd a chefnogwyr sydd wedi gwirfoddoli eu hamser, rhannu eu teithiau a'u profiadau a hyrwyddo'r rhaglen trwy eu rhwydweithiau. Mae'n fraint ac yn anrhydedd i gael eich cefnogaeth, ac yr ydym wrth ein bodd o gael cysylltu â chi a pharhau i adeiladu rhwydweithiau mor gryf a phwerus.

## 3. CRYFHAU HAWLIAU MENYWOD TRWY SICRHAU BOD EGWYDDORION CEDAW YN CAEL EU HYMGORFFORI YNG NGHYFRAITH CYMRU

Yn dilyn ymgyrchu helaeth ar y mater hwn, yr oeddem yn falch iawn o weld ymrwymiad Llywodraeth Cymru yn rhaglen y Chweched Senedd i ymgorffori Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Wahardd Pob Math o Wahaniaethu yn erbyn Menywod (CEDAW) yng nghyfraith Cymru. Fodd bynnag, daw'r

**CEDAW**

*Y Confensiwn ar Wahardd Pob Math o Wahaniaethu yn Erbyn Menywod*

ymrwymiad ar adeg ansicr iawn. Sylweddolwn nad yw pwerau datganoledig Cymru yn caniatáu ymgorffori CEDAW yn llawn, ond bydd mabwysiadu'r egwyddorion ym mholisïau a deddfwriaeth Cymru yng nghyswllt materion sydd wedi'u datganoli o gymorth i amddiffyn a chryfhau hawliau menywod a merched yng Nghymru. Rydym yn parhau i gael ein cynrychioli ar y Grŵp Llywio Cryfhau Hawliau Dynol, Grŵp Rhanddeiliaid Hawliau Dynol Cymru a Grŵp Trawsbleidiol y Senedd ar Hawliau Dynol. Rydym hefyd wedi cynnal trafodaethau â phartneriaid sy'n gweithio ar ymgorffori'r Confensiwn ar Hawliau Pobl Anabl (CRPD) a'r Confensiwn ar Wahardd Pob Math o Wahaniaethu Hiliol (ICERD), er mwyn sicrhau bod y gwaith hwn yn rhoi ystyriaeth i sefyllfa menywod sy'n profi gwahaniaethu croestoriadol.

Un o'r pryderon allweddol ynghylch hawliau menywod a ddaeth i'r golwg yn ystod y pandemig yw cyfrifoldebau gofal anghymesur menywod. Roedd hyn hefyd yn flaenoriaeth allweddol a ddaeth i'r amlwg i'n haelodau, gan beri i ni sefydlu Cynghrair Gofalu, wedi'i harwain gan grŵp llywio a oedd yn cynnwys chwe sefydliad partner- Gofalwyr Cymru, Chwarae Teg, Oxfam Cymru, Cyngor Hil Cymru, TUC Cymru a ninnau. Gyda'n gilydd, penderfynom ymgyrchu dros newid mewn polisi sy'n gwneud gofal plant a gofal cymdeithasol yn fwy fforddiadwy a hygyrch ynghyd â gwella cyflogau a thelerau gweithlu'r sectorau hyn y mae'r mwyafrif llethol ohonynt yn fenywod.

### 3.1. Rhwydweithiau Cenedlaethol a Rhyngwladol

Mae RhCM Cymru wedi parhau i chwarae rôl weithredol ar Gyd-bwyllgor y Deyrnas Unedig ar Fenywod – UKJCW, er mwyn i ni barhau i fod yn rhan o drafodaethau sy'n dylanwadu ar bolisïau'r Undeb Ewropeaidd a sicrhau bod yr wybodaeth ddiweddaraf gennym yng ngwledydd y Deyrnas Unedig am newidiadau i ddeddfwriaeth hawliau menywod yn Ewrop.

Y nod yw ein bod yn ymwybodol o unrhyw amddiffyniadau newydd ar gyfer menywod a gyflwynir yng nghyfraith yr Undeb Ewropeaidd, er mwyn gallu pwyso am eu cynnwys mewn deddfwriaeth briodol yn y Deyrnas Unedig a sicrhau na fydd ein hawliau'n cael eu tanseilio.

## 4. RHCM CYMRU CYNALIADWY

2021 oedd ein dengmlwyddiant a manteisiodd RhCM Cymru ar y cyfle i lansio blwyddyn codi arian â'r nod o godi £10,000 yn ein degfed flwyddyn. Cynhaliwyd lansiad meddal ymgyrch WEN at Ten ym mis Chwefror 2022. Cynlluniwyd gweithgareddau am y flwyddyn, gan gynnwys nenblymio a nofio mewn dŵr oer. Archwiliwyd dulliau eraill o godi arian, gan gynnwys ymuno ag Amazon Smile ac Easy Fundraising, ond ni ddefnyddiwyd y rhain i godi arian yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Ar ben hynny, trafodwyd sylfeini'r Cynnig Corfforaethol, 'RhCM Busnes' ynghyd â rhestr o gysylltiadau parod eu cefnogaeth.

**£10,000**
*Nod codi arian RhCM Cymru yn ein 10fed flwyddyn*

Cafodd strategaeth codi arian ei datblygu a'i chymeradwyo gan y bwrdd er mwyn sicrhau bod RhCM Cymru yn parhau i arallgyfeirio'i chyllid.

## Llywodraethu, Strwythur a Rheolaeth

Cwmni elusennol cyfyngedig trwy warant yw RhCM Cymru, a gafodd ei ymgorffori ar 23 Rhagfyr 2011 a'i gofrestru'n elusen ar 1 Chwefror 2012. Fe'i sefydlwyd o dan Femorandwm Cymdeithasu sy'n pennu amcanion a phwerau'r cwmni elusennol ac fe'i llywodraethir dan ei Erthyglau Cymdeithasu.

Mae Cyfarwyddwyr y cwmni hefyd yn ymddiriedolwyr elusennol at ddibenion cyfraith elusennau ac yn cael eu galw'n aelodau o'r Bwrdd o dan Erthyglau'r cwmni. Ymddiriedolwyr RhCM sy'n gwneud yr holl benderfyniadau o ran strategaeth, materion ariannol pwysig a chyflogaeth y staff. Mewn meysydd eraill, mae'r cyfrifoldeb dros wneud penderfyniadau wedi'i ddirprwyo i'r staff.

Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am gynnal cofnodion cyfrifyddu priodol sy'n datgelu, â chywirdeb rhesymol ar unrhyw adeg, sefyllfa ariannol y cwmni elusennol ac yn ei alluogi i sicrhau bod y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â Deddf Cwmnïau 2006.

### Rheoli Risg

Mae gan yr ymddiriedolwyr ddyletswydd i nodi ac adolygu'r risgiau y mae'r elusen yn agored iddynt a sicrhau bod rheolaethau priodol ar waith i ddarparu sicrwydd rhesymol yn erbyn twyll a chamgymeriadau.

### Budd Cyhoeddus

Mae'r ymddiriedolwyr yn cadarnhau eu bod wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd yn Adran 4 Deddf Elusennau 2006 a rhoi ystyriaeth briodol i ganllawiau budd cyhoeddus a gyhoeddwyd yn y Comisiwn Elusennau. Nodir y gweithgareddau sylweddol y gwnaethom ymgymryd â hwy yn ystod y flwyddyn sy'n dangos budd cyhoeddus yn y tudalennau uchod.

### Recriwtio a Phenodi'r Bwrdd

Mae gan RhCM Cymru uchafswm o 10 ymddiriedolwr, y mae'n rhaid i bob un ohonynt fod yn aelodau sy'n cael eu hethol i wasanaethu am dair blynedd. Caiff yr Ymddiriedolwyr gyfethol ar unrhyw adeg unrhyw unigolyn sy'n gymwys i gael ei ethol yn Ymddiriedolwr i lenwi swydd wag yn eu nifer neu fel Ymddiriedolwr ychwanegol ond ni chaiff Ymddiriedolwyr cyfetholedig ond dal eu swydd tan etholiad nesaf yr Ymddiriedolwyr neu nes y bydd yr Ymddiriedolwyr yn diddymu'r swydd (pa un bynnag sy'n dod gyntaf).

Cynigir hyfforddiant i'n hymddiriedolwyr trwy CGGC neu C3SC neu hyfforddiant priodol arall. Mae RhCM hefyd yn cynnal sesiynau sefydlu mewnol ac yn cynnig cymorth i ymddiriedolwyr newydd.

Mae pob aelod o RhCM yn gymwys i fod yn Ymddiriedolwyr.

**STAFF**

| | | |
|---|---|---|
| **Cyfarwyddwr** | Catherine Fookes | o fis Medi 2017 |
| **Swyddog Cyllid a Gweinyddu** | Catherine Chatham | o fis Awst 2019 |
| **Swyddog Cyfathrebu ac Ymgysylltu** | Megan Evans | o fis Gorffennaf 2020 |
| **Swyddog Polisi a Materion Cyhoeddus** | Jessica Laimann | o fis Mehefin 2021 |
| **Swyddog y Prosiect Mentora** | Annmarie Brown | o fis Awst 2021 |
| **Ymgyrchydd 5050Amrywiol** | Evelyn James | o fis Awst 2021 |
| **Rheolwr y Prosiect Mentora** | Joys Njini | o fis Hydref 2021 |

Rydym hefyd yn hynod o ddiolchgar am gyfraniad Rose Widlake, Alexandra Fox, Anouk Smith, a Beth Fry a fu oll yn cynorthwyo â'n gwaith Polisi a Chyfathrebu eleni.

**YMDDIRIEDOLWYR CYFREDOL**

| **Enw a Rôl** | **Dyddiad ethol ar gyfer tymor tair blynedd** |
|---|---|
| Mary Ann Brocklesby (Cadeirydd) | Tachwedd 2021 |
| Alison Williams (Trysorydd) | Gorffennaf 2019 |
| Rhian Davies (Is-gadeirydd) | Rhagfyr 2017, ail-etholwyd yn Nhachwedd 2020 |
| Ruth Fowler | Ebrill 2019 |
| Tania Silva | Tachwedd 2020 |
| Wanjiku Mbugua | Tachwedd 2020 |
| Lowri Walters | Tachwedd 2020 |
| Suzy Davies | Tachwedd 2021 |
| Rahila Hamid | Tachwedd 2021 |
| Jennifer Ramsay | Tachwedd 2021 |

Rydym hefyd yn ddiolchgar i Kate Ellis a Sarah John a gafodd eu cyfethol i'r bwrdd yn ystod y flwyddyn.

## ADOLYGIAD ARIANNOL

### Prif Ffynonellau Cyllid

Cafodd RhCM gyfanswm o £338,591 am y flwyddyn (a oedd yn cynnwys £1288 o arian heb ei gyfyngu; £337,303 o arian wedi'i gyfyngu).

Daw prif gyllid RhCM o Grant Cydraddoldeb a Chynhwysiad Llywodraeth Cymru sy'n werth £120,105 (2021: £145,000).

### Polisi Arian Wrth Gefn

Mae RhCM Cymru yn deall pwysigrwydd cael cronfa wrth gefn ac mae wedi mabwysiadu polisi sy'n rhoi sefydlogrwydd ariannol digonol i'r elusen a'r modd iddi gyflawni'i hamcanion elusennol am am y dyfodol agos.

## ADRODDIAD YR ARCHWILIWR ANNIBYNNOL I YMDDIRIEDOLWYR RHWYDWAITH CYDRADDOLDEB MENYWOD CYMRU

Adroddiad archwiliwr annibynnol i ymddiriedolwyr Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru ('y Cwmni') Rwy'n adrodd i ymddiriedolwyr yr elusen ar archwiliad cyfrifon y Cwmni ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022.

### Cyfrifoldebau a sail yr adroddiad

Fel ymddiriedolwyr elusen y Cwmni (a hefyd ei chyfarwyddwyr at ddibenion cyfraith cwmni) rydych yn gyfrifol am baratoi'r cyfrifon yn unol â gofynion Deddf Cwmnïau 2006 ('Deddf 2006').

Ar ôl cael fy modloni nad oes angen i gyfrifon y Cwmni gael eu harchwilio dan Ran 16 Deddf 2006 a'u bod yn gymwys i gael eu harchwilio, rwy'n adrodd o ran fy archwiliad o gyfrifon eich elusen fel a nodir yn Adran 145 Deddf Elusennau 2011 ('Deddf 2011'). Wrth gynnal fy archwiliad, rwyf wedi dilyn y cyfarwyddiadau a roddwyd gan y Comisiwn Elusennol dan Adran 145(5) (b) Deddf 2011.

### Datganiad yr archwiliwr annibynnol

Rwyf wedi cwblhau fy archwiliad. Gallaf gadarnhau nad oes unrhyw faterion wedi dod i'm sylw mewn cysylltiad â'r archwiliad sy'n peri i mi gredu'r canlynol:

1. nad oedd cofnodion cyfrifyddu wedi cael eu cadw o ran y Cwmni fel sy'n ofynnol dan Adran 386 Deddf 2006
2. nad yw'r cyfrifon yn cyd-fynd â'r cofnodion hynny
3. nad yw'r cyfrifon yn cydymffurfio â gofynion cyfrifyddu Adran 396 Deddf 2006 ac eithrio unrhyw ofyniad bod y cyfrifon yn rhoi golwg wir a theg nad yw'n fater sy'n cael ei ystyried fel rhan o archwiliad annibynnol;
4. nad yw'r cyfrifon wedi cael eu paratoi yn unol â dulliau ac egwyddorion y Datganiad o Arfer Argymelledig ar gyfer cyfrifyddu ac adrodd gan elusennau (yn berthnasol i elusennau sy'n paratoi eu cyfrifon yn unol â'r Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon (FRS 102)).

Nid oes gennyf unrhyw bryderon ac nid wyf wedi dod ar draws unrhyw faterion eraill sy'n gysylltiedig â'r archwiliad y dylid tynnu sylw atynt yr adroddiad hwn er mwyn galluogi dealltwriaeth gywir o'r cyfrifon i'w harchwilio.

Alison Vickers
ACA
Bevan Buckland LLP, Ground Floor, Cardigan House,
Castle Court, Swansea Enterprise Park, Abertawe SA7 9LA

Dyddiad: ..........................................

## DATGANIAD O WEITHGAREDDAU ARIANNOL AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 MAWRTH 2022

| | | | | **2022** | **2021** |
|---|---|---|---|---|---|
| | Nodiadau | Arian heb ei gyfyngu £ | Arian wedi'i gyfyngu £ | Cyfanswm yr arian £ | Cyfanswm yr arian £ |
| **INCWM A GWADDOL O'R CANLYNOL** | | | | | |
| Rhoddion ac etifeddiaethau | | 338 | – | 338 | 21 |
| **Gweithgareddau elusennol** | | | | | |
| Gweithgareddau elusennol | | 950 | 337,303 | 338,253 | 157,031 |
| **Cyfanswm** | | **1,288** | **337,303** | **338,591** | **157,052** |
| **GWARIANT AR Y CANLYNOL** | | | | | |
| **Gweithgareddau elusennol** | | | | | |
| Gweithgareddau elusennol | | 251 | 243,139 | 243,390 | 155,349 |
| **INCWM NET/(GWARIANT)** | | 1,037 | 94,164 | 95,201 | 1,703 |
| **CYSONI ARIAN** | | | | | |
| Cyfanswm yr arian sy'n weddill | | 36,314 | 24,272 | 60,586 | 58,883 |
| **CYFANSWM YR ARIAN SY'N WEDDILL** | | **37,351** | **118,436** | **155,787** | **60,586** |

## MANTOLEN 31 MAWRTH 2022

| | | | | 2022 | 2021 |
|---|---|---|---|---|---|
| | Nodiadau | Arian heb ei gyfyngu £ | Arian wedi'i gyfyngu £ | Cyfanswm yr arian £ | Cyfanswm yr arian £ |
| **ASEDAU CYFREDOL** | | | | | |
| Dyledwyr | 5 | 19,180 | 8,739 | 27,919 | 11,168 |
| Arian yn y banc | | 30,656 | 109,697 | 140,353 | 68,717 |
| | | 49,836 | 118,436 | 168,272 | 79,885 |
| **CREDYDWYR** | | | | | |
| Symiau sy'n dod o fewn blwyddyn | 6 | (12,485) | - | (12,485) | (19,299) |
| **ASEDAU CYFREDOL NET** | | 37,351 | 118,436 | 155,787 | 60,586 |
| **CYFANSWM YR ASEDAU HEB Y DYLEDION CYFREDOL** | | 37,351 | 118,436 | 155,787 | 60,586 |
| **ASEDAU NET** | | 37,351 | 118,436 | 155,787 | 60,586 |
| **ARIAN** | 7 | | | | |
| Arian heb ei gyfyngu | | | | 37,351 | 36,314 |
| Arian wedi'i gyfyngu | | | | 118,436 | 24,272 |
| **CYFANSWM YR ARIAN** | | | | **155,787** | **60,586** |

Mae gan y cwmni elusennol yr hawl i esemptiad rhag cael ei archwilio dan Adran 477 Deddf Cwmnïau 2006 ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022.

Ni does rhaid i'r aelodau ofyn i'r cwmni gael archwiliad o'i ddatganiadau ariannol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022 yn unol ag Adran 476 Deddf Cwmnïau 2006.

Mae'r ymddiriedolwyr yn cydnabod eu cyfrifoldebau dros y canlynol

(a) sicrhau bod y cwmni elusennol yn cadw cofnodion cyfrifyddu sy'n cydymffurfio ag Adran 386 a 387 Deddf Cwmnïau 2006
(b) paratoi datganiadau ariannol sy'n rhoi golwg wir a theg o gyflwr materion y cwmni elusennol ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol ac o'i gwarged neu ddiffyg am bob blwyddyn ariannol yn unol â gofynion Adrannau 394 a 395 ac sy'n cydymffurfio fel arall â gofynion Deddf Cwmnïau 2006 sy'n ymwneud â datganiadau ariannol, fel sy'n briodol i'r cwmni elusennol.

Mae'r datganiadau ariannol hyn wedi cael eu paratoi yn unol â'r darpariaethau sy'n briodol i gwmnïau elusennol yn amodol ar y drefn cwmnïau bach.

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol gan y Bwrdd Ymddiriedolwyr a'i hawdurdodi i'w cyflwyno ar

..............................................

a chafwyd eu llofnodi ar ei ran gan:

..................................................................................................

Suzy Davies - Ymddiriedolwr

## NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN YM MIS MAWRTH 2022

### 1. POLISÏAU CYFRIFYDDU

**Sail paratoi'r datganiadau ariannol**

Mae datganiadau ariannol y cwmni elusennol, sy'n endid budd cyhoeddus dan FRS 102, wedi cael eu paratoi yn unol â'r SORP Elusennau (FRS 102) 'Cyfrifyddu ac Adrodd gan Elusennau: Datganiad o Arfer Argymelledig sy'n gymwys i elusennau sy'n paratoi eu cyfrifon yn unol â'r Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon (FRS 102) (ar waith o 1 Ionawr 2019)'. Safon Adrodd Ariannol 102 'y Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon' a Deddf Cwmnïau 2006. Mae'r datganiadau wedi cael eu paratoi dan y confensiwn costau hanesyddol.

**Incwm**

Caiff yr holl incwm ei gydnabod yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol unwaith bod gan yr elusen hawl i'r arian ac mae'n debygol y bydd yr incwm yn cael ei dderbyn a bod y swm yn gallu cael ei fesur mewn ffordd ddibynadwy.

**Gwariant**

Caiff dyledion eu cydnabod fel gwariant cyn gynted ag y bo ymrwymiad cyfreithiol neu adeiladol sy'n ymrwymo'r elusen i'r gwariant hwnnw, ac mae'n debygol y bydd angen trosglwyddo buddion economaidd mewn setliad a gall swm y rhwymedigaeth gael ei mesur mewn ffordd ddibynadwy. Cyfrifir gwariant ar sail groniad ac mae wedi cael ei ddosbarthu dan benawdau sy'n agregu'r holl gostau sy'n ymwneud â'r categori. Lle na all costau gael eu priodoli'n uniongyrchol â phenawdau penodol maent wedi cael eu dyrannu i weithgareddau ar sail sy'n gyson â'r defnydd o adnoddau.

**Trethu**

Mae'r elusen wedi'i heithrio rhag gorfod talu treth gorfforaethol ar ei gweithgareddau elusennol.

**Cyfrifyddu arian**

Gall arian heb ei gyfyngu gael ei ddefnyddio yn unol â'r amcanion elusennol ar ddisgresiwn yr ymddiriedolwyr.
Gall arian heb ei gyfyngu gael ei ddefnyddio at ddibenion cyfyngedig penodol o fewn amcanion yr elusen. Bydd cyfyngiadau'n codi pan fydd y rhoddwr yn gofyn amdanynt neu lle mae'r arian yn cael ei godi at ddibenion cyfyngedig penodol.
Mae esboniad pellach o natur a diben yr arian wedi'i gynnwys yn y nodiadau i'r datganiadau ariannol.

**Costau pensiwn a buddion ôl-ymddeol eraill**

Mae'r cwmni elusennol yn gweithredu cynllun pensiwn diffiniedig. Caiff cyfraniadau sy'n daladwy i gynllun pensiwn y cwmni elusennol eu codi i'r Datganiad o Weithgareddau Ariannol yn y cyfnod maent yn berthnasol iddo.

## 1. POLISÏAU CYFRIFYDDU - parhad

**Dyrannu costau cymorth**

Costau cymorth yw'r swyddogaethau hynny sy'n helpu gyda gwaith yr elusen ond nad ydynt yn ymgymryd â gweithgareddau elusennol yn uniongyrchol. Mae costau cymorth yn cynnwys costau swyddfa gefn, cyllid, personél, cyflogres a chostau llywodraethu sy'n cefnogi gweithgareddau'r elusen. Mae'r costau hyn wedi cael eu dyrannu rhwng cost codi arian a gwariant ar weithgareddau elusennol.

**Dyledwyr**

Caiff dyledwyr masnach a dyledwyr eraill eu cydnabod yn swm y setliad sy'n ddyledus ar ôl unrhyw ostyngiad masnach a gynigiwyd. Caiff taliadau eu cadarnhau ar swm ragdaledig net unrhyw ostyngiadau masnach sy'n ddyledus.

**Arian yn y banc ac arian parod**

Mae arian yn y banc ac arian parod yn cynnwys buddsoddiadau ariannol a llif hyblyg tymor byr gydag aeddfedrwydd byr o dri mis neu'n llai o'r dyddiad caffael neu wrth agor yr ernes neu gyfrif tebyg.

**Credydwyr a darpariaethau**

Caiff credydwyr a darpariaethau eu cydnabod lle mae elusen wedi cyflwyno amcan o ganlyniad i ddigwyddiad o'r gorffennol a fydd yn golygu trosglwyddo'r arian i drydydd parti a bod y swm sy'n ddyledus i setlo'r rhwymedigaeth yn gallu cael ei fesur neu ei amcangyfrif mewn ffordd ddibynadwy. Fel arfer caiff credydwyr a darpariaethau eu cydnabod yn eu swm setlo ar ôl caniatáu am unrhyw ostyngiadau masnach sy'n ddyledus.

**Offerynnau ariannol**

Mae gan yr elusen asedau a dyledion ariannol o'r fath sy'n gymwys fel offerynnau ariannol sylfaenol. Caiff offerynnau ariannol sylfaenol eu cydnabod i gychwyn ar werth y trafodyn a chaiff eu mesur ar eu gwerth setliad ac eithrio benthyciadau banc sy'n cael eu mesur ar gost wedi'i hamorteiddio gan ddefnyddio'r dull llog effeithiol.

**Buddion cyflogeion**

Caiff cost unrhyw hawliau gwyliau heb eu defnyddio ei gydnabod yn y cyfnod lle caiff gwasanaethau'r cyflogai ei dderbyn.

**Statws cyfreithiol yr elusen**

Mae'r elusen yn gwmni sy'n gyfyngedig gan warrant heb unrhyw gyfalaf cyfranddaliadau. Petai'r elusen yn dod i ben, mae'r dyledion o ran y warant yn gyfyngedig i £1 fesul pob aelod o'r elusen.

**Asesu cyffyrddadwy**

Ein polisi yw bod unrhyw gostau cyfalaf dan £500 yn dod o dan y Datganiad o Weithgareddau Ariannol.

## 2. TÂL A BUDDION YMDDIRIEDOLWYR

Nid oedd tâl na buddion eraill ymddiriedolwyr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2022 nac am y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2021.

| | 2022 | 2021 |
|---|---|---|
| **Treuliau ymddiriedolwyr** | - | £100 |

## 3. COSTAU STAFF

Dyma nifer misol y cyflogeion ar gyfartaledd ar gyfer y flwyddyn:

| | 2022 | 2021 |
|---|---|---|
| Rheoli | 2 | 1 |
| Gwasanaethau Uniongyrchol | 4 | 3 |
| Gweinyddol | 1 | 1 |
| **Cyfanswm** | 7 | 5 |

Ni wnaeth unrhyw gyflogeion dderbyn cyflog yn fwy na £60,000.

Gwnaeth Personél Rheoli Allweddol yr Elusen dderbyn tâl gwerth £50,163 (2021: £47,677), ac mae hyn yn cynnwys cyflog gros a dalwyd, cyfraniadau yswiriant cenedlaethol gan gyflogeion a chyfraniadau pensiwn gan gyflogeion.

## 4. FFURFIAU CYMHAROL AR GYFER Y DATGANIAD O WEITHGAREDDAU ARIANNOL

| | Arian heb ei gyfyngu £ | Arian wedi'i gyfyngu £ | Cyfanswm yr arian £ |
|---|---|---|---|
| **INCWM A GWADDOLIADAU O'R CANLYNOL** | | | |
| Rhoddion ac etifeddiaethau | 21 | – | 21 |
| **Gweithgareddau elusennol** | | | |
| Gweithgareddau elusennol | 280 | 156,751 | 157,031 |
| **Cyfanswm** | **301** | **156,751** | **157,052** |
| **GWARIANT AR Y CANLYNOL** | | | |
| **Gweithgareddau elusennol** | | | |
| Gweithgareddau elusennol | (1,903) | 157,252 | 155,349 |
| **INCWM NET/(GWARIANT)** | 2,204 | (501) | 1,703 |
| **Trosglwyddo rhwng cronfeydd ariannol** | 3,024 | (3,024) | – |
| **Symudiad net arian** | 5,228 | (3,525) | 1,703 |
| **CYMODIAD ARIAN** | | | |
| **Cyfanswm yr arian sy'n weddill** | 31,086 | 27,797 | 58,883 |
| **CYFANSWM YR ARIAN SY'N WEDDILL** | **36,314** | **24,272** | **60,586** |

## 5. DYLEDWYR: SYMIAU SY'N DDYLEDUS O FEWN BLWYDDYN

| | **2022** £ | **2021** £ |
|---|---|---|
| Dyledwyr masnach | 22,031 | 8,288 |
| Rhagdaliadau | 5,888 | 2,880 |
| **Cyfanswm** | **27,919** | **11,168** |

## 6. CREDYDWYR: SYMIAU SY'N DDYLEDUS O FEWN BLWYDDYN

| | **2022** £ | **2021** £ |
|---|---|---|
| Credydwyr masnach | 1,134 | 4,677 |
| Diogelwch cymdeithasol a threthi eraill | 7,136 | 12,894 |
| Credydwyr arall | 2,337 | - |
| Treuliau a gronnwyd | 1,878 | 1,728 |
| **Cyfanswm** | **12,485** | **19,299** |

## 7. LOTERI FAWR

| | Ar 1.4.21 | Symudiad net arian | Ar 31.3.22 |
|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ |
| **Arian heb ei gyfyngu** | | | |
| Arian cyffredinol | 36,314 | 1,037 | 37,351 |
| **Arian wedi'i gyfyngu** | | | |
| Grant Llywodraeth Cymru | 6,954 | (6,954) | - |
| CGGC – Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector | 10,732 | (8,057) | 2,675 |
| Loteri Fawr | - | 44,848 | 44,848 |
| 100 Menywod Cymreig | 2,461 | - | 2,461 |
| Fawcett | 875 | (875) | - |
| Waterloo | 2,000 | (2,000) | - |
| Grŵp Cyllido Menywod | 1,250 | (1,250) | - |
| EYST Cymru | - | 5,000 | 5,000 |
| Codwr arian CGGC | - | 37,261 | 37,261 |
| ERS Cymru | - | 5,000 | 5,000 |
| LlC Mentora | - | 2,270 | 2,270 |
| JRRT | - | 18,921 | 18,921 |
| | 24,272 | 94,164 | 118,436 |
| **CYFANSWM YR ARIAN** | **60,586** | **95,201** | **155,787** |

| Mae'r symudiad net mewn arian wedi cael ei gynnwys yn yr uchod fel a ganlyn: | Incwm adnoddau | Gwariant adnoddau | Symudiad mewn cronfeydd |
|---|---|---|---|
| **Arian heb ei gyfyngu** | £ | £ | £ |
| Arian cyffredinol | 1,288 | (251) | 1,037 |
| **Arian wedi'i gyfyngu** | | | |
| Grant Llywodraeth Cymru | 120,105 | (127,059) | (6,954) |
| CGGC – Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector | 3,501 | (11,558) | (8,057) |
| Loteri Fawr | 107,034 | (62,186) | 44,848 |
| Fawcett | – | (875) | (875) |
| Waterloo | – | (2,000) | (2,000) |
| Grŵp Cyllido Menywod | 5,000 | (6,250) | (1,250) |
| EYST Cymru | 5,000 | – | 5,000 |
| Codwr arian CGGC | 37,477 | (216) | 37,261 |
| ERS Cymru | 5,000 | – | 5,000 |
| LlC Mentora | 24,436 | (22,166) | 2,270 |
| JRRT | 29,750 | (10,829) | 18,921 |
| | 337,303 | (243,139) | 94,164 |
| **CYFANSWM YR ARIAN** | **338,591** | **(243,390)** | **95,201** |

### 7. SYMUDIAD MEWN CRONFEYDD ARIANNOL - parhad

**Ffurfiau cymharol ar gyfer symudiad mewn arian**

| | Ar 1.4.20 | Symudiad net arian | Trosglwyddiadau rhwng cronfeydd ariannol | Ar 31.3.21 |
|---|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ | £ |
| **Arian heb ei gyfyngu** | | | | |
| Arian cyffredinol | 31,086 | 2,204 | 3,024 | 36,314 |
| **Arian wedi'i gyfyngu** | | | | |
| Grant Llywodraeth Cymru | 3,899 | 6,954 | (3,899) | 6,954 |
| CGGC – Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector | 7,452 | 2,405 | 875 | 10,732 |
| CEDAW | 12,082 | (12,082) | – | – |
| 100 o Fenywod Cymreig | 2,909 | (448) | – | 2,461 |
| Rosa | 1,455 | (1,455) | – | – |
| Fawcett | – | 875 | – | 875 |
| Waterloo | – | 2,000 | – | 2,000 |
| Grŵp Cyllido Menywod | – | 1,250 | – | 1,250 |
| | 27,797 | (501) | (3,024) | 24,272 |
| **CYFANSWM YR ARIAN** | **58,883** | **1,703** | **–** | **60,586** |

Mae'r symudiad net mewn arian wedi cael ei gynnwys yn yr uchod fel a ganlyn:

| | Incwm adnoddau | Gwariant adnoddau | Symudiad mewn cronfeydd |
|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ |
| **Arian heb ei gyfyngu** | | | |
| Arian cyffredinol | 301 | 1,903 | 2,204 |
| **Arian wedi'i gyfyngu** | | | |
| Grant Llywodraeth Cymru | 145,000 | (138,046) | 6,954 |
| CGGC – Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector | 3,501 | (1,096) | 2,405 |
| CEDAW | – | (12,082) | (12,082) |
| 100 o Fenywod Cymreig | – | (448) | (448) |
| Rosa | – | (1,455) | (1,455) |
| Fawcett | 2,000 | (1,125) | 875 |
| Waterloo | 5,000 | (3,000) | 2,000 |
| Grŵp Cyllido Menywod | 1,250 | – | 1,250 |
| | 156,751 | (157,252) | (501) |
| **CYFANSWM YR ARIAN** | **157,052** | **(155,349)** | **1,703** |

## 7. SYMUDIAD MEWN ARIAN - parhad

Sefyllfa 12 mis cyfredol a 12 mis blaenorol wedi'u cyfuno fel a ganlyn:

| | Ar 1.4.20 | Symudiad net mewn arian | Trosglwyddiadau rhwng cronfeydd ariannol | Ar 31.3.22 |
|---|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ | £ |
| **Arian heb ei gyfyngu** | | | | |
| Arian cyffredinol | 31,086 | 3,241 | 3,024 | 37,351 |
| | | | | |
| **Arian wedi'i gyfyngu** | | | | |
| Grant Llywodraeth Cymru | 3,899 | – | (3,899) | – |
| CGGC – Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector | 7,452 | (5,652) | 875 | 2,675 |
| Loteri Fawr | – | 44,848 | – | 44,848 |
| CEDAW | 12,082 | (12,082) | – | – |
| 100 o Fenywod Cymreig | 2,909 | (448) | – | 2,461 |
| Rosa | 1,455 | (1,455) | – | – |
| EYST Cymru | – | 5,000 | – | 5,000 |
| Codwr arian CGGC | – | 37,261 | – | 37,261 |
| ERS Cymru | – | 5,000 | – | 5,000 |
| LlC Mentora | – | 2,270 | – | 2,270 |
| JRRT | – | 18,921 | – | 18,921 |
| | 27,797 | 93,663 | (3,024) | 118,436 |
| **CYFANSWM YR ARIAN** | **58,883** | **96,904** | **–** | **155,787** |

## 7. SYMUDIAD MEWN ARIAN - parhad

Mae symudiad net cyfunol mewn cronfeydd y flwyddyn gyfredol 12 mis a blwyddyn flaenorol 12 mis, sydd wedi'u cynnwys yn yr uchod fel a ganlyn:

| | Incwm adnoddau £ | Gwariant adnoddau £ | Symudiad mewn cronfeydd £ |
|---|---|---|---|
| **Arian heb ei gyfyngu** | | | |
| Arian cyffredinol | 1,589 | 1,652 | 3,241 |
| **Arian wedi'i gyfyngu** | | | |
| Grant Llywodraeth Cymru | 265,105 | (265,105) | – |
| CGGC – Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector | 7,002 | (12,654) | (5,652) |
| Loteri Fawr | 107,034 | (62,186) | 44,848 |
| CEDAW | – | (12,082) | (12,082) |
| 100 o Fenywod Cymreig | – | (448) | (448) |
| Rosa | – | (1,455) | (1,455) |
| Fawcett | 2,000 | (2,000) | – |
| Waterloo | 5,000 | (5,000) | – |
| Grŵp Cyllido Menywod | 6,250 | (6,250) | – |
| EYST Cymru | 5,000 | – | 5,000 |
| Codwr arian CGGC | 37,477 | (216) | 37,261 |
| ERS Cymru | 5,000 | – | 5,000 |
| LlC Mentora | 24,436 | (22,166) | 2,270 |
| JRRT | 29,750 | (10,829) | 18,921 |
| | 494,054 | (400,391) | 93,663 |
| **CYFANSWM YR ARIAN** | **495,643** | **(398,739)** | **96,904** |


## 8. DATGELIADAU PARTÏON CYSYLLTIEDIG

Nid oes unrhyw drafodion parti cysylltiedig ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022.

## DATGANIAD MANWL O WEITHGAREDDAU ARIANNOL AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 MAWRTH 2022


| | 2022 | 2021 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| **INCWM A GWADDOLION** | | |
| **Rhoddion ac etifeddiaethau** | | |
| Rhoddion | 338 | 21 |
| **Gweithgareddau elusennol** | | |
| Grantiau | 338,253 | 156,751 |
| Refeniw arall | – | 280 |
| | 338,253 | 157,031 |
| **CYFANSWM YR INCWM ADNODDAU** | **338,591** | **157,052** |
| **GWARIANT** | | |
| **Gweithgareddau elusennol** | | |
| Treuliau ymddiriedolwyr | – | 100 |
| Cyflogau | 141,501 | 104,444 |
| Diogelwch cymdeithasol | 8,379 | 4,799 |
| Pensiynau | 6,986 | 4,555 |
| Yswiriant | 105 | 248 |
| Cyfathrebu a'r rhyngrwyd | 4,976 | 1,877 |
| Dylunio, cyhoeddiadau a marchnata | 6,455 | 8,307 |
| Teithio a chynhaliaeth | 4,056 | 2,679 |
| Ffioedd aelodaeth a chofrestru | 852 | 630 |
| Ffioedd ymgynghori | 1,380 | 700 |
| Digwyddiadau ac adnoddau | 7,879 | 8,287 |
| Cyfarpar TG | 6,149 | 321 |
| Costau cyfieithu | 2,058 | 1,816 |
| Costau hyfforddiant | 2,112 | 1,828 |
| Costau eiddo | 862 | 1,055 |
| Costau'r swyddfa | 6,072 | 2,973 |
| Polisi ac Ymchwil | 3,294 | 7,554 |
| Gwerthusiad | 1,020 | 806 |
| Mentora | 350 | – |
| Taliadau partneriaid PCLlC (EPEV) | 36,184 | – |
| Taliadau banc | 97 | 59 |
| | **240,767** | **153,038** |
| **Costau cymorth** | | |
| Ffioedd cyfrifyddu a chyfreithiol | 2,623 | 2,311 |
| Cyfanswm yr adnoddau a ddefnyddiwyd | 243,390 | 155,349 |
| **INCWM NET/(GWARIANT)** | **95,201** | **1,703** |

## INCWM



| | |
|---|---|
| Arian cyffredinol | 2% |
| Llywodraeth Cymru | 35% |
| CGGC | 1% |
| Loteri Fawr | 32% |
| Grŵp Cyllido Menywod | 2% |
| Eyst | 2% |
| Codwr Arian CGGC | 11% |
| ERS Cymru | 1% |
| LlC Mentora | 7% |
| JRRT | 9% |

## GWARIANT



| | |
|---|---|
| Cyflogau a Phensiwn | 64% |
| Costau Swyddfa | 8% |
| Digwyddiadau a Chyhoeddiadau | 9% |
| Treuliau Staff ac Ymddiriedolwyr | 1% |
| Polisi ac Aelodaeth | 2% |
| Ffioedd Cyfrifyddu | 1% |
| Taliadau partneriaid PCLlC (EPEV) | 15% |



Nid yw'r dudalen hon yn ffurfio rhan o'r datganiadau ariannol statudol